#Caru Cymraeg

Cymraeg

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

## Siarad Cymraeg:

**Siarad Cymraeg yn rhugl?** - Peidiwch â cholli eich Cymraeg felly! Defnyddiwch eich Cymraeg ar bob cyfle, yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt - drwy gynnal eich sgiliau yn yr Iaith Gymraeg, byddwch yn gwella eich cyfle i gael swydd ar ôl gadael y Coleg. Cynhelir llawer o ddigwyddiadau Cymraeg gan y Coleg ac mae llawer o gymorth ar gael i chi, hyd yn oed y cyfle i gael eich asesu drwy gyfrwng y Gymraeg beth bynnag eich maes pwnc.

## Dysgu'r Gymraeg:

**Beth am ddysgu'r Gymraeg?** Bydd dysgu'r Gymraeg o fudd o safbwynt eich gyrfa, beth bynnag y byddwch yn penderfynu ei wneud yn y dyfodol. Wrth roi mantais o'r fath i chi eich hun, byddwch yn fwy cyflogadwy a gall hyn arwain at lwybrau i well swyddi a rhagor o ddewis, ac ar ben hynny, mae'n cynnig cyfle i chi ennill rhagor o arian. Rhowch gynnig ar y Gymraeg heddiw!

## Byw'r Gymraeg:

**Rydym yn falch iawn o fod yn Gymry!** Er ein bod yn genedl fechan, rydym yn ymfalchïo yn ein hiaith a'n Cymreictod - nid yma yng Nghymru yn unig ond ym mhedwar ban y byd - rydym ym mhob man! Ac mae ein cariad tuag at Gymru, ei hiaith a'i diwylliant yn ddiddiwedd... byddwn hyd yn oed yn eich addysgu amdani trwy gydol eich cyrsiau yn y Coleg a thrwy gymryd rhan mewn digwyddiadau Cymreig llawn hwyl a sbri yn ystod y flwyddyn - gwnewch yn siwr eich bod yn cadw eich llygaid yn agored am ddigwyddiadau sy'n dod yn fuan.

**Peidiwch â bod yn swil - Speak Welsh!**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
**cymraeg@nptcgroup.ac.uk**

**www.nptcgroup.ac.uk/cy**